| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **19 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL** | **NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD YN DILYN Y DEDDF PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2013 A'R RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DIWYGIAD) (LLYWODRAETHU) 2014** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID**<br><br>**IWAN EVANS – PENNAETH CYFREITHIOL** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

## 1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hon yn gofyn i aelodau ystyried newidiadau i adrannau'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (CBLlL). Mae'r newidiadau wedi cael eu drafftio er mwyn sicrhau bod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 ynglŷn â sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn diffinio'r swyddogaethau, aelodaeth a strwythur gweithredu'r Bwrdd Pensiwn Gwynedd. (Atodiad 3).

## 2. Cefndir

2.1 Roedd y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (DPGC) 2013, yn ganlyniad adolygiad sylfaenol o'r ddarpariaeth pensiwn gwasanaethau gan yr Arglwydd Hutton ar ran y llywodraeth ("Adolygiad Hutton"). Yr amcan oedd hwyluso cyflwyniad o newidiadau i'r trefniadau llywodraethu; methodoleg prisio; strwythur buddion y cynllun; trefniadau rhannu costau ayyb ar draws cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus ac am y tro cyntaf dod a nhw i gyd o dan un fframwaith statudol.

2.2 Heblaw'r rheoliadau ynglŷn a llywodraethu a rheolaeth costau, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 (y Rheoliadau Llywodraethu), nid yw'r newidiadau o dan y DPGC mewn perthynas i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (CBLlL) yn cael effaith ar Gyfansoddiad y Cyngor ac maent wedi cael eu gweithredu yn llawn gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

2.3 Mae'r Rheoliadau Llywodraethu yn ymofyn am newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor. Mae hyn oherwydd bod y DPGC yn gosod y gofyniad i bob cynllun

pensiwn gwasanaethu cyhoeddus i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol erbyn 1af Ebrill 2015.

2.4 Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau wedi derbyn crynodeb o'r newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ac mae'r swyddogion wedi gweithio gydag Awdurdodau Gweinyddol eraill er mwyn penderfynu'r ffordd gorau i ymateb i'r gofynion rheoleiddiol.

2.5 Er mwyn sicrhau cyrraedd y dyddiad cau statudol a bod Bwrdd Pensiwn Lleol Gwynedd yn cael ei sefydlu yn unol a'r rheoliadau cynigir yr ychwanegiadau a'r diwygiadau atodol i'r Cyfansoddiad a'r strwythur rheoli'r cynllun pensiwn (Atodiadau 1, 2 a 3). Mae'r newidiadau yn cynnwys y meysydd canlynol:

2.5.1 Diweddaru'r dirprwyaethau i'r Swyddog Adran 151 er mwyn cynnwys awdurdodi gwariant Bwrdd Pensiwn Gwynedd. (Atodiad 1)

2.5.2 Diweddaru'r swyddogaethau'r Pwyllgor Pensiynau i roi sylw ac ystyried argymhellion Bwrdd Pensiwn Lleol Gwynedd. (Atodiad 2)

2.5.3 Cynnwys strwythur y Bwrdd Pensiwn (Atodiad 3)

2.5.4 Mabwysiadu'r swyddogaethau, aelodaeth a strwythur gweithredu Bwrdd Pensiwn Gwynedd (Atodiad 3)

- Mae'r Bwrdd Pensiwn yn adrodd i'r Cyngor fel Awdurdod Gweinyddol y Gronfa.
- Mae gan y Bwrdd Pensiwn gyfrifoldeb allanol i'r Rheolydd Pensiynau, sydd gyda rôl cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth ar draws holl gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus, yn unol a'r DPGC.
- Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cael ei gyfansoddi fel corff sydd dim yn gwneud penderfyniadau er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol gyda:
    - sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau'r cynllun, deddfwriaeth arall ynglŷn a llywodraethu a gweinyddiaeth ynghyd a gofynion y Rheolydd Pensiynau a
    - sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon i'r Gronfa.

## 3. Argymhelliad

2.1 Argymhellir i'r Cyngor adolygu adrannau'r o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r CPLlL, er mwyn sicrhau fod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Lleol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu).

2.2 Sefydlu Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol a'r adroddiad ar sail y Cylch Gorchwyl a Llywodraethu. ( Atodiad 3)

## Atodiad 1: Newidiadau Arfaethedig y Cyfansoddiad i dirprwyaeth i Pennaeth Cyllid

### 5. Pennaeth Cyllid

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

5.1 Bod y swyddog priodol at bwrpas Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol l972 ac Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol l988.

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

5.2 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Archwilio Mewnol
- Cyfrifeg
- Rheolaeth Risg ac Yswiriant
- Y Gronfa Bensiwn a'r Cynllun Pensiwn
- Rheolaeth Trysorlys (gan gynnwys buddsoddiadau)
- Treth y Cyngor a Threthi Annomestig
- Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor
- Taliadau
- Incwm a Chredydwyr
- Cyflogau
- Technoleg Gwybodaeth

5.3 Bod y swyddog priodol at ddibenion Adran 115 ac 146 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5.4 Hawl i lofnodi tystysgrif fod contractau yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cytundebau) 1997.

5.5 Enwebu swyddogion atal twyll budd-dal

5.6 Awdurdodi dileu dyledion hyd at y symiau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

5.7 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

**5.8 Awdurdodi gwariant Bwrdd Pensiwn Gwynedd**

## Atodiad 2: Geiriad Arfaethedig y Cyfansoddiad:

# PWYLLGOR PENSIYNAU

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1**.** Swyddogaeth sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, a.y.b. | Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11), **Adran3 Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol 2013** | |
| 2. Swyddogaethau o dan Gynlluniau Pensiwn presennol mewn perthynas â phersonau a gyflogir gan awdurdodau tân ac achub yn unol ag Adran 1 Deddf Gwasanaethau tân ac Achub 2004. | Adrannau 34 a 36 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, **rheoliadau o dan Adran3 Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol 2013** | |
| **3. I dalu sylw ac ystyried argymhellion Bwrdd Pensiwn Lleol Cronfa Bensiwn Gwynedd.** | | |

DRAFT

Atodiad 3

# Cylch Gorchwyl a Llywodraethu  ar gyfer Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd

Cylch Gorchwyl a Hawliau wedi'u Dirprwyo

**1) Cyflwyniad**

Pwrpas y ddogfen hon yw pennu cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiwn lleol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**2) Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol**

2.1 Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol fel y'i diffinnir gan adrannau 5 (1) a (2) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yw:

- Cynorthwyo Awdurdod Gweinyddu Gwynedd fel Rheolwr y Cynllun; –
    - i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("CPLlL") ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r CPLlL
    - i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
    - gyda materion eraill a gynhwysir yn rheoliadau'r CPLlL
- Sicrhau bod CPLlL yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu yn effeithiol ac yn effeithlon ar gyfer Cynllun Pensiwn Gwynedd

2.2  Bydd y Bwrdd Pensiwn yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn effeithiol ac yn effeithlon gyda'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd Pensiwn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei rheoli a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cydymffurfio gyda'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Rheoliadau'r Cynllun a Rheolwr y Cynllun fydd yn penderfynu ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd.

2.3  Bydd y Bwrdd Pensiwn yn adrodd ddwy waith y flwyddyn i'r Pwyllgor Pensiynau ar faterion sydd wedi'u hadolygu ac yn gwneud awgrymiadau i'w hystyried ganddo. Cynhelir y cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith arferol ac o fewn ffiniau'r Sir. Bydd y Bwrdd yn cynnal o leiaf ddau gyfarfod ar wahân bob blwyddyn.

2.4  Dylai'r Bwrdd Pensiwn weithredu o fewn ei gylch gorchwyl bob amser.

2.5 Mae'r Bwrdd wedi'i ffurfio o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2014 ac felly nid yw'n ddarostyngedig i ofynion Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw gylch gwaith fel corff gwneud penderfyniadau.

**3) Penodi aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

3.1 Rhaid cael cynrychiolaeth gyfartal rhwng cyflogwyr y cynllun ac aelodau'r cynllun.

DRAFT

Yn ddarostyngedig i reol 107 (3) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 Bydd 6 aelod o'r Bwrdd Pensiwn, a bydd yn cynnwys:

- 3 chynrychiolydd y cyflogwr (un ohonynt yn cynrychioli'r Awdurdod Gweinyddu);
- 3 chynrychiolydd aelodau'r cynllun;

Cyn belled â'i bod yn ymarferol rhesymol, bydd ymgais i geisio sicrhau fod y Bwrdd yn cynrychioli ystod grwpiau'r cyflogwr a'r aelodau o fewn y gronfa.

3.2 Gofynnir i gyflogwyr a gweithwyr enwebu cynrychiolwyr i'r Bwrdd Pensiwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trefnu cyfarfod o'r panel i ddethol aelodau'r Bwrdd Pensiwn. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Aelod Cabinet dros Gyllid. Detholir yr aelodau Bwrdd unigol ar gyfer pob categori ar sail cydbwysedd cyffredinol y profiad a'r sgiliau yn y grŵp.

3.3 Yn amodol ar 3.4 a 3.7 gwneir y penodiadau am bedair blynedd, ac ni fydd cyfyngiad ar sawl gwaith y gellir ail-benodi aelodau i'r Bwrdd.

3.4 Os bydd Aelod o'r Bwrdd a benodir mewn capasiti cynrychioladol i'r cyflogwr neu aelodau yn rhoi'r gorau i gynrychioli cyflogwr neu aelodau mewn capasiti o'r fath, bydd eu haelodaeth o'r Bwrdd yn cael ei ddiddymu ar unwaith.

3.5 Bydd yr Awdurdod Gweinyddu felly yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Pensiwn o blith aelodau'r Bwrdd. Caiff y swyddogaethau eu rhannu, gydag un ohonynt yn cynrychioli'r cyflogwr ac un yn cynrychioli'r aelodau, gan eu cyfnewid bob dwy flynedd.

3.6 Rôl y Cadeirydd fydd sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos parch dyledus tuag at y broses, fod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn, ac i benderfynu pryd y bydd consensws wedi'i gyrraedd.

3.7 Dylai pob aelod o'r Bwrdd geisio mynychu pob cyfarfod o'r bwrdd yn ystod y flwyddyn. Ni chaniateir eilyddion.

3.8 Petai aelod o'r bwrdd yn absennol yn gyson o gyfarfodydd y Bwrdd neu hyfforddiant, bydd eu haelodaeth yn cael ei adolygu gan aelodau eraill y Bwrdd ar y cyd â Rheolwr y Cynllun, a gall Rheolwr y Cynllun benderfynu diddymu eu haelodaeth. Mae gan Reolwr y Cynllun ddisgresiwn i ddiddymu aelodaeth unrhyw aelod o'r Bwrdd os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol i wneud hynny.

3.9 Bydd treuliau ar gyfer mynychu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant yn cael eu had-dalu'n unol â pholisïau a chyfraddau'r Cyngor y cytunwyd arnynt ar gyfer aelodau etholedig.

3.10 Gan nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, nid oes gan y Bwrdd yr hawl i sefydlu Gweithgorau nac Is-grwpiau.

**4) Cworwm**

4.1 Bydd cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd os yw 3 Aelod o'r Bwrdd yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd a rhaid i'r cworwm gynnwys o leiaf un cynrychiolydd cyflogwr ac un cynrychiolydd aelodau.

4.2 Bydd gan bob aelod un bleidlais ond yn ôl yr angen, bydd pleidlais fwrw gan y Cadeirydd.

**5) Buddiannau sy'n Gwrthdaro**

5.1 Cyn eu penodi i'r Bwrdd, bydd yn rhaid i'r holl aelodau gytuno i gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Bwrdd. Gan ei fod yn gorff sy'n cynrychioli buddion y cyhoedd, bydd Cod Ymddygiad aelodau'r Bwrdd Pensiwn yr un fath â'r cod sy'n berthnasol i Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, sydd i'w weld ar wefan y Cyngor. Er osgoi amheuaeth, nid yw "buddiannau sy'n gwrthdaro" yn golygu

buddiant ariannol na buddiant arall sy’n bodoli dim ond drwy gyfrwng aelodaeth o’r cynllun neu gynllun cysylltiedig
(Adran 5 (5) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013).

5.2 Bydd yn ofynnol i Aelodau’r Bwrdd Pensiynau gydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad wrth ymwneud â’u dyletswyddau fel Aelodau o’r Bwrdd.

**6) Ymgynghorwyr i’r Bwrdd**

6.1 Mae gan y Bwrdd yr hawl i gael cefnogaeth ymgynghorwyr profiadol, a bydd yn cael mynediad at ymgynghorwyr yr Awdurdod Gweinyddu gan gynnwys yr actwari, Rheolwyr Buddsoddi, Ymgynghorwyr Buddsoddi, ac ymgynghorwyr eraill a gymeradwyir gan Reolwr y Cynllun.

6.2 Rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i sicrhau gwerth am arian, ac ystyried a fyddai Swyddogion yn medru darparu’r gefnogaeth angenrheidiol yn y lle cyntaf. Rhaid i'r Swyddog Adran 151 gymeradwyo eitemau o wariant gan y Bwrdd ymlaen llaw.

**7) Gwybodaeth a Sgiliau**

7.1 Rhaid i aelod o’r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â:

- Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).
- Unrhyw ddogfen sy'n cynnwys polisi ynghylch gweinyddiaeth y CPLlL sydd wedi'i fabwysiadu ar y pryd gan Gronfa Pensiwn Gwynedd.

Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth am –

- Y gyfraith sy’n ymwneud â phensiynau, ac
- Unrhyw faterion eraill sydd wedi’u pennu mewn rheoliadau.

7.2 Rhaid i’r awdurdod gweinyddu sicrhau fod pob person a benodir i'r Bwrdd yn meddu ar y profiad a’r gallu perthnasol i gynrychioli cyflogwyr neu aelodau (fel sy’n briodol) y Gronfa. I ddechrau, yr Awdurdod Gweinyddu fydd yn dethol, ond ar ôl eu penodi, mae'n gyfrifoldeb ar Aelod Bwrdd unigol i sicrhau eu bod yn bresennol ym mhob sesiwn hyfforddiant er mwyn cyflawni'r gofynion o ran gwybodaeth a sgiliau. Darperir hyfforddiant llawn a bydd y gronfa’n talu am yr holl gostau rhesymol.

7.3 Yn unol â'r gofyniad hwn, mae’n ofynnol i aelodau’r Bwrdd Pensiwn fedru arddangos eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth a diweddaru eu gwybodaeth. Felly mae’n ofynnol i aelodau’r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

7.4 Bydd aelodau’r Bwrdd Pensiwn yn cynnal dadansoddiad o’u hanghenion hyfforddiant personol, ac yn adolygu eu sgiliau, eu cymwyseddau a’u gwybodaeth yn gyson i adnabod unrhyw fylchau neu wendidau.

7.5 Rhaid i aelodau’r Bwrdd Pensiwn gydymffurfio â pholisi hyfforddiant Rheolwr y Cynllun.

8) Cyfarfodydd Bwrdd – Rhybudd a Chofnodion

8.1 Bydd Rheolwr y Cynllun yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i holl aelodau’r Bwrdd Pensiwn am bob cyfarfod o’r Bwrdd Pensiwn. Bydd y Rhybudd yn cynnwys yr agenda, cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw adroddiad sydd i’w ystyried yn y cyfarfod. Dylid anfon y Rhybudd i’r aelodau dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod, ac eithrio pan fo mater brys.

Bydd Rheolwr y Cynllun yn sicrhau y cynhelir cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn. Ar ôl i Gadeirydd y Bwrdd neu bwyllgor y Bwrdd gymeradwyo’r cofnodion, fe’u dosberthir i’r holl aelodau.

DRAFT

**9) Cylch Gwaith y Bwrdd**

9.1 Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn gynorthwyo Rheolwr y Cynllun gyda materion a bennir yn rheoliadau'r cynllun. Mater i reoliadau'r cynllun a Rheolwr y Cynllun yw penderfynu yn union beth yw cynnwys rôl y Bwrdd.

**10) Cyhoeddi gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn**

10.1 Bydd angen i aelodau'r cynllun a phartïon eraill â diddordeb wybod bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae angen iddynt fod yn hyderus fod y Bwrdd Pensiwn wedi'i sefydlu'n gywir, wedi'i hyfforddi ac yn gymwys i gydymffurfio â rheoliadau'r cynllun, llywodraethu a gweinyddu'r cynllun a gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau.

10.2 Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

10.3 Cyhoeddir papurau, rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd ar wefan Cyngor Gwynedd. Yn ôl disgresiwn Rheolwr y Cynllun, gellir eu golygu i eithrio eitemau a allai fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a bennir yn Rhan 1 atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, neu sy'n gyfrinachol at ddibenion Adran 100A(2) y Ddeddf honno a/neu sy'n cynnwys data sy'n destun y Ddeddf Diogelu Data 1998.

10.4 Bydd Rheolwr y Cynllun hefyd yn ystyried ceisiadau i wybodaeth ychwanegol gael ei chyhoeddi neu ei darparu i aelodau unigol o'r cynllun i annog aelodau i ymgysylltu ac i hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw.

**11) Atebolrwydd**

11.1 Bydd y Bwrdd Pensiwn a'i aelodau yn atebol ar y cyd ac yn unigol i Reolwr y Cynllun.

DRAFT